

**COFNODION CYFARFOD O'R PWYLLGOR CRAFFU DYSGU GYDOL OES
A GYNHALIWDYD YN SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y DREF AR
DYDD IAU, 17 IONAWR 2019**

AELODAU

Y Cynghorydd Carrie Harper, Cadeirydd
Y Cynghorydd Michael Dixon, Is-Gadeirydd

Y Cynghorydd	* Sonia Benbow-Jones	Y Cynghorydd	John McCusker
"	Dana Davies	"	Beverley Parry-Jones
"	* Frank Hemmings	"	* Rondo Roberts
"	R Alun Jenkins	"	Debbie Wallice
"	Paul Jones	"	* Robert Walsh
"	* Tina Mannering		

Mr Brendan McDonald - Cynrychiolydd yr Eglwys

Mrs Alison Fisher - Cynrychiolydd Rhiant Lywodraethwyr*

Mr Brent Evans - Cyfetholedig

*Yn absennol

Hefyd yn bresennol – Y Cynghorwyr Phil Wynn

29 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cyflwynwyd ymddiheuriadau am absenoldeb ar ran y Cynghorwyr Sonia Benbow Jones, Frank Hemmings, Tina Mannering, Rondo Roberts a Robert Walsh a'r aelod cyfetholedig, Mrs Alison Fisher.

30 CADARNHAU COFNODION

Cywiro Cofnod 26

Diwygio argymhelliad (i) i gynnwys y geiriad "adolygiad llyfrgelloedd"

CYTUNWYD – Yn amodol ar y diwygiad a nodwyd, bod Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Rhagfyr 2018 yn cael eu llofnodi fel cofnod cywir.

31 RHAGLEN WAITH

Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid adroddiad (HF/03/19s) i helpu'r Pwyllgor ystyried a chytuno ar ei raglen waith.

Adroddodd yr Hwylusydd Craffu bod y newidiadau y cytunwyd arnynt yn y cyfarfod diwethaf wedi cael eu hymgorffori yn y rhaglen waith.

Gwnaed cais i'r adroddiad ar Ymddygiad ac Ysgolion gynnwys gwybodaeth am sut y

mae'r awdurdod lleol yn herio penderfyniadau am waharddiadau o'r ysgol.

PENDERFYNWYD – Cytuno ar y rhaglen waith a amlinellwyd yn adroddiad HF/03/19s.

32

PROSESAU CYNLLUNIO GWELLIANNAU GWASANAETHAU ADDYSG LLYWODRAETH LEOL

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol Pobl – Addysg adroddiad (HEd/03/19s) a roddodd drosolwg i'r Aelodau o brosesau hunanwerthuso, rheoli perfformiad a chynllunio busnes yr Adran Addysg a'r blaenoriaethau gwella drafft ar gyfer 2019-20.

Croesawodd y Cadeirydd gynrychiolwyr o Gymdeithas Penaethiaid Uwchradd Wrecsam (WASH) a Ffederasiwn y Penaethiaid Cynradd (PHF) i'r cyfarfod.

Ystyriodd yr Aelodau'r adroddiad gan ofyn cwestiynau i'r Aelod Arweiniol a'r Pennaeth Addysg. Yn ystod y drafodaeth, tynnwyd sylw at y pwyntiau canlynol:

- Cefnogaeth i'r blaenoriaethau lefel uchel a'r fframwaith atebolrwydd a amlinellir yn yr adroddiad.
- Cais i'r Pwyllgor dderbyn cynlluniau Lefel 1 – 4 ar gyfer yr Adran Addysg. Awgrymodd y Pennaeth Addysg y dylai'r Pwyllgor ystyried y wybodaeth fel rhan o'r adroddiadau perthnasol a nodir yn ei raglen waith.
- Ceisiwyd eglurhad mewn perthynas â'r diffiniad o'r egwyddor hunanwerthuso 'Cadarn', oedd yn cyfeirio at ddata perfformiad 'lle bo'n berthnasol'. Nododd y Pennaeth Addysg fod hyn yn adlewyrchu'r defnydd o ddata mesuradwy ac ansoddol. Awgrymwyd diwygio'r diffiniad i ddarllen 'pan fo ar gael'.
- Adroddwyd bod aelodaeth lywodraethol Grŵp Llywio Addysg yn cynnwys un llywodraethwr o ysgolion Cynradd, Uwchradd ac Arbennig, gyda thymor yr aelodaeth yn para am 2 flynedd i sicrhau dilyniant.
- Nodwyd y byddai'r blaenoriaethau ar gyfer gwella'n cael eu rhannu â'r Cynghorwyr.
- Ceisiwyd eglurhad mewn perthynas â'r data targed a pherfformiad fydd ar gael i alluogi'r Pwyllgor i werthuso perfformiad yn y dyfodol. Nododd y Pennaeth Addysg, er y byddai data perfformiad gan yr ysgolion, na fyddai data cyfanredol ar gael i'r cyhoedd o'r flwyddyn nesaf ymlaen. Roedd trafodaethau'n mynd rhagddynt gyda Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r data fyddai ar gael i'r Pwyllgorau wrth symud ymlaen. Mynegwyd pryder am y diffyg eglurder mewn perthynas â rôl craffu yn y dyfodol o ran y Gwasanaethau Addysg.
- Awgrymwyd y dylid rhoi ystyriaeth i wahodd ysgolion unigol i gyfarfodydd y dyfodol, er mwyn galluogi'r Aelodau i ystyried eu targedau a chael sicrwydd bod cynnydd digonol yn cael ei wneud.
- Byddai rôl Gweithgor Monitro Perfformiad Ysgolion y Pwyllgor hefyd yn rhoi lefel o sicrwydd i'r Aelodau o ran perfformiad ysgolion unigol.

Gwahoddodd y Cadeirydd gynrychiolwyr WASH a PHF i annerch y Pwyllgor. Bu iddynt sicrhau'r Aelodau bod Penaethiaid Cynradd ac Uwchradd yn gyfarwydd iawn

â'r cynllun busnes, gyda'r blaenoriaethau hyn yn cael eu hadlewyrchu i lawr i lefel y cynlluniau ysgol. Roedd Penaethiaid, yn ogystal â chydweithwyr GwE, yn herio perfformiad ac roedd ysgolion yn gallu darparu tystiolaeth o gynnydd disgyblion gan ddefnyddio data tracio. Roedd y Penaethiaid yn rhannu rhai o bryderon y Pwyllgor mewn perthynas â symud o lefel uchel o atebolrwydd, ond sicrhawyd yr Aelodau y byddent yn parhau i ganolbwyntio ar bynciau craidd, ond y byddai'r newid hefyd yn galluogi ysgolion i gydnabod cynnydd disgyblion y tu hwnt i lefel 2+.

CYTUNWYD -

- (i) Y byddai'r Pwyllgor yn cefnogi'r blaenoriaethau lefel uchel a nodir ym mharagraff 2.10 yr adroddiad.**
- (ii) Y byddai gwaith yn cael ei wneud i baru'r cynlluniau sydd yn y fframwaith atebolrwydd â'r eitemau perthnasol sydd yn rhaglen waith y pwyllgor ar hyn o bryd.**
- (iii) Lle mae egwyddorion hunanwerthuso'n cael eu rhestru ym mharagraff 4.14 yr adroddiad, y byddai'r diffiniad o Cadarn yn cael ei ddiwygio i ddarllen "data, pan fo ar gael".**
- (iv) Y byddai'r holl Aelodau'n cael crynodeb o'r adroddiad hunanwerthuso cynlluniau Lefel 1 a 2 a luniwyd gan yr Aelod Arweiniol Addysg ac Aelod Arweiniol y Gwasanaethau Ieuenctid a Gwrthdlodi.**
- (v) Y byddai'r Cadeirydd yn cael ei dirprwyo i gydweithio â'r Aelod Arweiniol Addysg i anfon gohebiaeth ymlaen i Is-bwyllgor Addysg CLILC yn amlygu pryderon am y diffyg eglurder o ran y rôl ddiwygiedig y mae gofyn i Craffu ymgymryd â hi mewn perthynas â'r gwasanaeth Addysg.**

33

GWASANAETHAU ADDYSG LLYWODRAETH LEOL

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol Pobl – Addysg adroddiad (HEd/02/19s) oedd yn cynghori'r Pwyllgor Craffu Dysgu Gydol Oes am y fethodoleg ddiwygiedig ar gyfer arolygiadau Estyn o Wasanaethau Addysg Llywodraeth Leol (LGES), ac yn galluogi'r pwyllgor i ystyried y dull o werthuso'i effeithiolrwydd ei hun yn erbyn llinellau ymholiad fframwaith LGES.

Wrth drafod yr adroddiad, tynnwyd sylw at y materion canlynol:

- Nodwyd fod fframwaith Estyn ar gyfer arolygu gwasanaethau addysg awdurdod lleol wedi cael ei ddiwygio, a'i fod bellach wedi'i frandio fel Gwasanaethau Addysg Llywodraeth Leol.
- Byddai rôl yr Aelodau a'r swyddogaeth Graffu'n llunio rhan o Faes Arolygu 3, a byddai'r Cyngor yn cael 10 wythnos o rybudd bod Estyn am ddod i gynnal arolygiad.
- Adroddodd y Cadeirydd ei bod hi a'r Is-gadeirydd yn ystyried ffocws rhaglen waith y Pwyllgor er mwyn sicrhau ei fod mod effeithiol ag y gall fod.

- Byddai hunanwerthusiad cychwynnol y Pwyllgor yn bwydo i mewn i ddogfennau hunanwerthuso'r awdurdod lleol.
- Atgoffodd y Pennaeth Addysg y Pwyllgor bod cynnal hunanwerthusiad blynyddol yn arfer da.
- Awgrymwyd y gallai'r meysydd i'w hystyried, o ystyried effeithiolrwydd blaenorol, gynnwys yr Adroddiad Craffu Blynyddol, gwaith y Grŵp Tasg a Gorffen Tlodi Mislif, cefnogaeth y Pwyllgor i sefyllfa ariannol ysgolion a gwaith parhaus y Gweithgor Monitro Perfformiad Ysgolion.
- Er mwyn sicrhau bod sylwadau pob un o aelodau'r Pwyllgor yn cael eu hymgorffori yn yr ymateb hunanwerthuso, bydd yr Hwylusydd Craffu'n rhoi pecyn gwybodaeth i aelodau'r Pwyllgor er mwyn iddynt gael cyflwyno eu sylwadau i'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd eu hystyried cyn cyfarfod mis Chwefror.
- Gwnaed cais i argymhellion Estyn ar gyfer Craffu gael eu bwydo'n ôl, yn dilyn arolygiad, er mwyn i'r Pwyllgor gael datblygu cynllun gweithredu.

CYTUNWYD – Gohirio ystyried y mater hwn tan gyfarfod mis Chwefror, gyda'r bwriad o ddatblygu ymateb llawn i'w gyflwyno i'r Pennaeth Addysg erbyn 31 Mawrth 2019.

Y Cyngorydd Carrie Harper
Cadeirydd